**Rhif: 3**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C17/0487/30/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **13/06/2017** |
| **Math y Cais:** | **Llawn - Cynllunio** |
| **Cymuned:** | **Aberdaron** |
| **Ward:** | **Aberdaron** |
| **Bwriad:** | **Creu safle carafanau teithiol ar gyfer 6 llain, tirlunio, adeiladu bloc toiledau/cawod a tanc trin /** |
| **Lleoliad:** | **Fferm Methlem, Rhydlios, Pwllheli, Gwynedd, LL538LG** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | GWRTHOD |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Cais yw hwn ar gyfer sefydlu safle carafanau teithiol i 6 uned ar gae ym Methlem, Rhoshirwaun. Mae'r bwriad hefyd yn cynnwys adeiladu bloc toiledau ar gefn gweithdy presennol, ynghyd a gosod system trin carthion ac ymgymryd ag elfen o dirlunio i atgyfnerthu gwrychoedd presennol. Mae'r cae dan sylw ar ffurf triongl a bwriedir lleoli'r unedau o amgylch ffiniau'r cae bychan. Ceir pellter o oddeutu 110m rhwng y cae a thŷ annedd Methlem, gyda gweithdy, iard a chwrt o adeiladau allanol o amrywiol ansawdd yn eu gwahanu.

1.2 Safle cefn gwlad agored yw hwn yn ffinio gyda ffordd sirol dosbarth 3 Porth Oer ac mae o fewn dynodiad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae hefyd oddi fewn i'r Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Bwriedir defnyddio mynediad gerbydol sydd eisoes yn gwasanaethu'r gweithdy a'r iard bresennol fel mynediad i'r safle. Ceir nifer o garafanau a cherbydau o fewn yr iard ar hyn o bryd.

1.3 Cyflwynir y cais i'r Pwyllgor gan ei fod yn ymwneud a datblygiad o 5 carafán neu fwy.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

TRA 2: Safonau parcio
TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant
PCYFF 2: Meini prawf datblygu
PCYFF 3: Dylunio a siapio lle
PCYFF 4: Dylunio a thirweddu
TWR 5: Safleoedd carafanau teithiol, gwersylla a llety gwersylla amgen dros dro
PS 19: Gwarchod a neu wella'r amgylchedd naturiol
AMG 1: Cynlluniau rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
PS 17: Diogelu a neu wella asedau treftadaeth
AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau , Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig.

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**
Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, Tachwedd 2016)
Nodyn Cyngor Technegol 12 – Dylunio
Nodyn Cyngor Technegol 13 – Twristiaeth

Nodyn Cyngor Technegol 18 – Trafnidiaeth

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C15/0110/30/LL - Creu safle carafanau teithiol i 6 carafán, adeiladu bloc toiled gosod system trin carthion a thirlunio - Tynnwyd yn ôl 27 Ebrill 2015.

3.2 C09D/0188/30/LL Cais ôl-weithredol i gadw gweithdy a godwyd yn lle gweithdy blaenorol: Caniatáu 17 Tachwedd 2009

3.3 C08D/0133/30/LL Estyniad unllawr cefn, ochr a blaen: Caniatáu 19 Mai 2008

3.4 2/10/115A Cyfaddasu hen adeiladau amaethyddol yn ganolfan gwyliau i'r anabl, a llety gofalwr: Caniatáu 29 Hydref 1993 (Heb ei weithredu)

3.5 2/10/115 Newid defnydd dwy ystafell tŷ i fwyty: Caniatáu 8 Mai 1978

**4. Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned/Tref: Heb eu derbyn.

Uned Drafnidiaeth: Bwriad o raddfa dderbyniol sy'n annhebyg o gael effaith andwyol ar y ffyrdd lleol.

Cyfoeth Naturiol Cymru: **Draenio Dŵr Budr**

Mae'r cais yn cadarnhau y cynigir y bydd dŵr budr o'r safle carafanau yn cael ei waredu drwy osod gwaith trin carthion preifat newydd. Gan ei fod yn safle carafanau bydd yn dymhorol ei natur, ac os nad yw unrhyw ffynhonnell garthffosiaeth arall a ddefnyddir drwy gydol y flwyddyn yn cael ei chysylltu â'r gwaith trin carthion, ni fyddai'r system hon yn derbyn unrhyw garthffosiaeth dros gyfnod y gaeaf. Os hynny, pan fydd y tymor twristiaeth yn ailddechrau, byddai angen cymorth ar y gwaith trin carthion i weithio eto er mwyn cydymffurfio ag unrhyw eithriad neu drwydded a gyhoeddir.

Bydd gofyn fod yr ymgeisydd yn darparu gwybodaeth i gadarnhau :-

- Bod gosod tanc septig sy'n gollwng i suddfan dŵr wedi cael ei ystyried - o ran hierarchaeth trin carthffosiaeth, byddai'n well i'r ymgeisydd ystyried a yw'r tir yn addas ar gyfer gosod tanc septig a suddfan dŵr gan y byddai'r rhain yn ymdopi'n well gyda'r cynnydd a'r gostyngiadau o ran llwythi carthffosiaeth. Rydym yn argymell bod yr ymgeisydd yn cynnal prawf mandylledd i ddangos p'un a yw amodau'r tir yn addas ar gyfer tanc septig a suddfan dŵr.
- Y dull gollwng o'r gwaith trin carthion preifat - Nid yw'r cais a gyflwynwyd yn cadarnhau'r dull gollwng o'r gwaith trin carthion. Byddai gennym bryderon sylweddol o ran gollwng carthion i'r pwll ym Methlem gan y byddai'n arwain at ewtroffeiddio a llygru'r pwll a chyrsiau dŵr i lawr yr afon. Nid yw'r

dull hwn o waredu ar elifion carthffosiaeth yn briodol felly.

- Nad yw pwynt gwaredu'r toiled cemegol wedi'i gysylltu â'r system draenio dŵr budr. Bod yr ymgeisydd dyn cywiro'r dull draenio dŵr budr sy'n gysylltiedig â gwaredu carthffosiaeth a chemegau. - Mae'r dyluniadau yn nodi hefyd bod pwynt gwaredu gwastraff cemegol yn cael ei gynnig ar gyfer y safle. Cynigir iddo gael ei gysylltu â'r gwaith trin carthion. Ni ddylid caniatáu i wastraff toiled cemegol gael ei ddraenio i unrhyw weithfeydd trin carthion preifat gan y bydd y cemegau cysylltiedig yn lladd y bacteria sy'n byw yn y gwaith trin carthion, a bydd ansawdd yr elifion a gynhyrchir yn wael oherwydd hyn. Dylai gwastraff o doiled cemegol gael ei gasglu o fewn tanc dan sêl (gyda larwm lefel uchel) cyn cael ei wagio gan dancer a'i drosglwyddo i un o weithfeydd trin carthion Dŵr Cymru, sydd o faint briodol ac sy'n gallu ymdopi â mewnlifiant o'r fath.

Hefyd rhoddwyd cyngor o ran rheoli amgylcheddol o waith datblygu a hefyd nodi fod y safle o fewn yr AHNE.

| | |
|---|---|
| Dŵr Cymru: | Gan fod yr ymgeisydd yn bwriadu defnyddio gwaith trin preifat argymhellir cysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| Uned Bioamrywiaeth: | Mae'r ardal a fwriedir ar gyfer y carafanau yn cynnwys ardal o laswelltir. Mae clawdd ar ffin y safle â'r ffordd. Mae pwll gerllaw i'r gogledd o safle arfaethedig ar gyfer carafanau. Nid yw'r ymgeisydd wedi cyflwyno unrhyw arolwg ecolegol h.y. ar gyfer cynefinoedd neu rywogaethau blaenoriaeth ac nid yw ychwaith wedi cyflwyno Asesiad Effaith Ecolegol. Nid oes arolwg coed ychwaith wedi ei gyflwyno. Fodd bynnag mae'r bwriad yn annhebygol o gael effaith ar fioamrywiaeth a choed ac nid oes gennyf wrthwynebiad i'r bwriad. Mae cloddiau yn gynefin o werth bioamrywiaeth uchel ac yn elfen nodweddiadol o dirwedd Llyn. Argymhellaf fod amod cynllunio i ddiogelu'r clawdd yn cael ei gynnwys. |
| Uned AHNE: | Mae Methlem wedi ei leoli mewn man amlwg ar ochr ffordd wledig yn ardal Rhydlios ac yn yr AHNE. Mae'r safle dan sylw rhwng y lôn ac adeilad amaethyddol eithaf sylweddol. Gerllaw mae adeiladau amaethyddol traddodiadol mewn cyflwr adfeiliedig a blêr. Er y byddai'r clawdd a'r gwrych presennol yn cynnig elfen o sgrinio byddai'r datblygiad yn weladwy o'r ffordd a rhai mannau eraill ac o ran yr AHNE mae pryder am sefydlu safle carafanau teithiol o'r newydd ar y safle. |
| Swyddog Carafanau: | Mae'r datblygiad angen trwydded safle. Gweler o fanylion y cais y bydd lled rhwng y carafanau teithiol yn amrywio yn seiliedig ar y drefn mae'r carafanau teithiol yn cyrraedd a siâp a chymeriad y safle. Gall hyn gael effaith ar ddiogelwch |

tân pe bai'r unedau teithiol (carafanau + adlen + car) yn rhy agos i'r uned nesaf. Mae'n rhaid cael 3 medr clir rhwng pob uned deithiol (carafán + adlen + car + 3 medr clir). O achos y mater hwn, dylid cysidro caniatáu llai mewn nifer o garafanau ar ganiatâd cynllunio oni bai bod cadarnhad penodol yn ei dderbyn bod digon o le i'r 6 carafán deithiol. Gweler hefyd yn bresennol bod ceir, JCB ag offer fferm wedi eu parcio ger y sied amaethyddol. Rhaid sicrhau bydd dim offer na thrafnidiaeth nad oes angen ar y safle sy'n gallu creu peryglon iechyd a diogelwch i'r Cyhoedd. Dylid cadw'r safle yn rhydd o unrhyw strwythur, siediau neu ddeciau pren a all greu annibendod a chynyddu risg o dân.

Gwasanaeth Tân: Nid oes gan yr Awdurdod Tân unrhyw sylwadau i'w roi ynglŷn â mynedfa i gerbydau tân a chyflenwad dŵr.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a death y cyfnod ymgynghori i ben. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb yn ystod y cyfnod yma.

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae polisi TWR 5 o'r CDLL yn caniatáu cynigion i ddatblygu safleoedd carafanau teithiol os cydymffurfir â'r cyfan o'r meini prawf a nodir. Yn eu mysg yw bod y datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad a'i fod wedi ei leoli mewn man anymwthiol sydd wedi ei guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd a/neu ble gellir cydweddu'r unedau teithiol yn hawdd yn y dirwedd mewn modd nad yw'n peri niwed sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd; bod y bwriad yn osgoi gormodedd o ardaloedd o leiniau caled; fod ei gysylltiad ffisegol â'r ddaear yn gyfyngedig ac yn gallu cael ei symud oddi ar y safle yn y tymor caeedig; dylai unrhyw gyfleusterau atodol os yw hynny'n bosib, gael eu lleoli mewn adeilad presennol neu fel estyniad i gyfleusterau presennol; bod y safle'n agos at y prif rwydwaith ffyrdd ac y gellir darparu mynediad digonol heb amharu'n sylweddol ar nodweddion a chymeriad y dirwedd; mae meddiannaeth y datblygiad wedi'i gyfyngu i ddefnydd gwyliau yn unig; bod y safle'n cael ei ddefnyddio at ddibenion teithio'n unig a bod unrhyw unedau'n cael eu symud o'r safle yn y cyfnodau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

5.2 Saif y cae bychan dan sylw yng nghefn gwlad agored ac yn gyfochrog a ffordd sirol ddosbarth 3. Byddai'r chwe uned wedi eu gosod o amgylch ffiniau'r cae, sydd ar ffurf triongl. Datgan maen prawf 1 polisi TWR 5 y dylai dyluniad, gosodiad ac edrychiad safleoedd carafanau teithiol fod o ansawdd uchel. Gan mai cae o faint cyfyngedig yw hwn, cwestiynir os oes modd cael gosodiad o safon uchel yma. Ymddengys o'r cynllun fod yr unedau wedi eu gwasgu i safle bychan, gyda pharcio a phosibiliad o bebyll adlen (awnings) rhwng yr unedau yn golygu y bydd yr ardal amwynder i'r defnyddwyr yn gyfyngedig iawn. Mae sylwadau'r Swyddog Carafanau hefyd yn cwestiynu os oes lle digonol ar gyfer y nifer o unedau yr ymgeisir amdanynt o fewn y safle. Gellir gweld o'r cynllun a gyflwynwyd na fyddai lle digonol rhwng unedau i sicrhau'r gofyniad gan y Swyddog Carafanau ar gyfer carafán, adlen a char ac yna 3 medr clir i'r llain nesaf.

5.3 Nid oes pryder sylweddol am yr elfen bloc toiledau o'r cais, gan y bwriedir gorffen y bloc toiled i gydweddu a'r gweithdy presennol sydd o liw gwyrdd tywyll. Er bod clawdd o amrywiol faint yn ffinio'r ffordd, gydag ychydig o goed bychan yma a thraw nid yw'r tirlunio presennol yn ddigonol i guddio nac integreiddio'r unedau arfaethedig i'r tirlun. Tra nodir bod y cynllun yn datgan y bwriedir atgyfnerthu gwrychoedd presennol ar y ffin ddeheuol, nodwyd yn ystod yr ymweliad fod y ffin ddeheuol hon ar y cyfan yn noeth o unrhyw dirlunio ac mai clawdd bychan isel yn unig oedd yma. Mae'r caeau tu hwnt i'r safle yn agored gyda llethr yn rhedeg i lawr i gyfeiriad y de oddi wrth safle'r cais, gan olygu bod golygfeydd clir o'r unedau o'r ffordd sirol o gyfeiriad Porth Oer.

5.4 Mae'r Datganiad Dylunio a Mynediad a gyflwynwyd gyda'r cais wedi edrych ar y safle o sawl lleoliad yn y cyffiniau. Ar y cyfan mae'r asesiad o'r safleoedd yma yn cydnabod fod y safle yn weledol ac yn argymell tirlunio ychwanegol er mwyn creu sgrin ar gyfer y safle. Mae'r cynlluniau a gyflwynwyd fel rhan o'r cais yn cynnwys tirlunio ychwanegol ar hyd y ffin gyda'r ffordd sirol a hefyd ar y ffin ddeheuol. Mae'r rhain wedi eu cynnwys fel mesurau lliniaru ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Er gwaetha'r cynnig tirlunio, mae'r polisi yn datgan y dylai safleoedd newydd fod mewn llecynnau anymwthiol sydd wedi ei guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd. Nid yw'r safle fel ac y mae yn cwrdd â'r maen prawf hwn gan fod y safle'n amlwg yn y dirwedd, felly ystyrir fod y bwriad yn groes i brif egwyddor polisi TWR 5 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd.

5.5 O safbwynt agosrwydd at y rhwydwaith ffyrdd, mae'r safle gyda mynediad uniongyrchol i ffordd sirol trydydd dosbarth. Lon wledig ydyw sy'n droellog a chul mewn mannau er hynny, ceir mynedfa lydan i mewn i'r iard gyda gwelededd cymharol agored i'r ffyrdd i'r tri cyfeiriad.

5.6 Nid yw storio carafanau yn ffurfio rhan o'r cais hwn ond nodwyd yn ystod yr archwiliad safle bod ychydig o garafanau eisoes yn cael ei storio wrth y gweithdy presennol. Deallir bod yr Uned Gorfodaeth wedi edrych i mewn i'r storio yn flaenorol ac na weithredwyd ymhellach gan fod yr ymgeisydd yn trwsio cerbydau a charafanau ac yn eu cadw yno ar gyfer ei fusnes. Nid oes gwybodaeth sy'n ffurfio rhan o'r cais sy'n cynnig sicrwydd y byddai'r unedau teithiol sy'n ffurfio rhan o'r cais yn cael ei symud pan nad ydynt mewn defnydd gan gael oblygiadau ar fwynderau gweledol. Byddai'n bosibl fodd bynnag rhoddi amod dim storio carafanau ar y safle.

5.7 Nid oes maes carafanau teithiol arall gerllaw safle'r cais, na dim un yn yr un cyd-destun gweledol, felly nid oes pryder sylweddol am effaith gronnol safleoedd presennol yn yr achos yma. Serch hynny, ni ystyrir fod y bwriad yn cwrdd â phrif amcan y polisi sy'n gofyn fod safleoedd yn anymwthiol yn y tirlun felly ystyrir fod egwyddor y bwriad yn groes i bolisi TWR 5 CDLL.

**Mwynderau gweledol**

5.8 Prif nod polisi AMG 1 CDLL yw gwarchod, cynnal a gwella cymeriad yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy roddi ystyriaeth i'r Cynllun Rheolaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Un o brif nodau'r Cynllun Rheolaeth AHNE yw i gynnal, gwarchod a gwella cymeriad a harddwch arbennig ac unigryw tirlun, arfordir a morlun Llyn. I'r perwyl hyn mae'r Cynllun Rheolaeth yn cynnwys nifer o Bolisïau ac Amcanion. Mae Polisi TP4 ac amcan TA 4 yn ymgeisio i wrthsefyll datblygiadau fyddai yn ymwthiol ar dirlun, arfordir neu forlun yr AHNE. Mae Polisi TP5 ac Amcan TA 5 o'r Cynllun Rheolaeth yn argymell gwrthsefyll datblygiadau carafanau newydd ac estyniadau i safleoedd presennol mewn lleoliadau amlwg yn yr AHNE a

hyrwyddo tirlunio a gwell rheolaeth o safleoedd ac unedau presennol. Fel nodwyd eisoes mae pryder bod y safle yn ei ffurf bresennol yn ymwthiol yn y tirlun, a hynny oherwydd nad yw'r dirffurf na'r tirlunio presennol yn cymhathu'r unedau i'w leoliad. Ystyrir bod y safle yn amlwg yn y dirwedd fel ac y mae, gyda'r nifer o gerbydau, peiriannau ac offer presennol o fewn yr iard yn denu sylw a sefyll allan yn weladwy. Byddai caniatáu safle carafanau ar y safle yn ategu at amlygrwydd y safle ac yn difrïo golygfeydd o fewn yr AHNE, sy'n arbennig o amlwg o gyfeiriad ffordd ger Porth Oer a hefyd wrth deithio tuag at Methlem o gyfeiriad Rhydlios. Ni fyddai'r bwriad yn cyfrannu'n gadarnhaol i dirlun ehangach yr AHNE ac felly nid yw'r bwriad yn cwrdd â gofynion polisi AMG 1 CDLL.

5.9 Nid yw'r dirffurf na'r tirlunio presennol yn ddigonol i gymhathu'r unedau i'r safle. Er bod y cynlluniau yn dangos y bwriedir atgyfnerthu'r tirlunio presennol i sgrinio'r carafanau, nid oes manylion tirlunio cynhwysfawr wedi eu cynnwys ar y cynlluniau. Pe caniateir y cais, nid oes sicrwydd y byddai'r plannu'n cael ei gario allan i'r graddau fyddai'n angenrheidiol i sgrinio'r datblygiad. Mae'r cais yn cydnabod ei hun fod y tirlunio presennol yn annigonol ac er gwaetha'r cynnig i dirlunio, ni ystyrir fod y bwriad yn ei hanfod yn dderbyniol o agwedd polisi tirlunio PCYFF 4 CDLL o ystyried ei leoliad sensitif mewn AHNE.

5.10 Lleolir y safle o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llyn ac Enlli. Mae'r bwriad yn ymwneud a creu safle carafanau teithiol newydd ond o ran ei leoliad a'i faint ystyrir mai yn lleol y byddai effaith y bwriad ac na fyddai'n cael effaith ehangach ar y dirwedd hanesyddol. Felly, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt Polisi AT 1 CDLl.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.11 Lon wledig dosbarth tri sy'n gwasanaethu'r safle, sy'n droellog a chul mewn mannau wrth nesáu at y safle. Nid yw'n lôn brysur o ran trafnidiaeth, serch hynny mae'n ffordd sy'n gwasanaethu traeth Porth Oer felly yn profi lefelau uwch o lif trafnidiaeth yn nhymor yr haf. Nid oes gan yr Uned Drafnidiaeth unrhyw bryderon ynglŷn â'r bwriad. Mae mynedfa lydan gyda gwelededd agored boddhaol i'r tri chyfeiriad felly ni ystyrir y byddai'r bwriad yn debygol o fod yn niweidiol i ddiogelwch ffyrdd nac yn groes o agwedd polisi TRA 4. Bwriedir parcio ceir yr ymwelwyr rhwng yr unedau, fyddai yn dderbyniol o agwedd polisi darpariaeth parcio TRA 2 ond yn golygu bod gofod mwynderol y safle'n gyfyng.

**Materion bioamrywiaeth**

5.12 Derbyniwyd sylwadau gan yr Uned Bioamrywiaeth ar y cais. Nid oes ganddynt bryderon bioamrywiaeth am y cais ond yn gofyn am amod i sicrhau fod y clawdd yn cael ei gadw. Yn sgil hyn ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt materion bioamrywiaeth.

**Materion eraill**

5.13 Fel rhan o'r cais bwriedir gosod gwaith trin carthion preifat newydd. Mae sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn lleisio gwrthwynebiad i'r bwriad ar sail defnyddio system o'r fath. Deallir nad yw system o'r fath yn ddelfrydol ar gyfer defnydd tymhorol fel byddai'r achos ar gyfer safle carafanau teithiol ac y dylai'r ymgeisydd ystyried a yw'r tir yn addas ar gyfer gosod tanc septig gyda suddfan dŵr gan y byddai hyn yn ymdopi'n well gyda'r cynnydd a'r gostyngiadau o ran llwythi carthffosiaeth. Os gellir dangos nad yw'r tir yn addas ar gyfer tanc septig byddai'n bosibl wedyn

ystyried gwaith trin carthion preifat ond mae pryder os byddai'r carthion yn cael eu gollwng i'r pwll ym Methlem y byddai'n arwain at ewtroffeiddio a llygru'r pwll a chyrsiau dŵr i lawr yr afon ac felly ni fyddai'r dull yma o waredu ar elifion carthffosiaeth yn briodol. Hefyd mae pwynt gwaredu gwastraff cemegol yn cael ei gynnig ar gyfer y safle gyda hwn yn cael ei gysylltu i'r gwaith trin carthion. Fodd bynnag mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgan na ddylid caniatáu i wastraff toiled cemegol gael ei ddraenio i unrhyw weithfeydd trin carthion preifat gan y bydd y cemegau cysylltiedig yn lladd y bacteria sy'n byw yn y gwaith trin carthion a bydd ansawdd yr elifion a gynhyrchir yn wael oherwydd hyn. Anfonodd Cyfoeth Naturiol Cymru gopi o'u sylwadau i'r asiant ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb i'r pwyntiau sy'n cael eu codi wrth baratoi'r adroddiad. Cysylltwyd gyda'r asiant ymhellach i geisio ei ymateb. Yn bresennol felly nid oes gwybodaeth ddigonol am y dull gwaredu carthffosiaeth wedi ei dderbyn yn rhan o'r cais i ddangos na fydd y bwriad yn achosi llygredd yn bennaf i'r amgylchedd dyfrol. Ystyrir felly nad yw'r bwriad yn cydymffurfio gyda maenprawf 7 o Bolisi PCYFF 2 sydd yn datgan y gwrthodir cynigon fydd yn cael effaith andwyol sylweddol ar iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol, defnyddiau tir neu eiddo arall neu nodweddion yr ardal leol oherwydd mwy o weithgareddau, aflonyddwch, dirgryniad, sŵn, llwch, mygdarth, sbwriel, dreiniau, llygredd golau, neu ffurfiau eraill o lygredd neu aflonyddwch.

## 6. Casgliadau:

6.1 Er mai safle teithiol bychan fyddai hwn, o ran maint a nifer nid yw'r Cyngor wedi eu hargyhoeddi fod y safle fel ac y mae'n cydymffurfio gydag egwyddorion polisi TWR 5 sy'n ymwneud a safleoedd teithiol. Ystyrir y byddai 6 carafán yn nodwedd ymwthiol yn y dirwedd gan gael effaith niweidiol annerbyniol ar fwynderau gweledol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae'r cerbydau ac offer presennol fel ac y mae yn sefyll allan yn y dirwedd a byddair unedau arfaethedig yn gwaethygu'r sefyllfa. Er gwaetha'r tirlunio a gynigir, nid oes sicrwydd y byddai'r tirlunio'n cymryd lle pe derbynnir caniatâd a hyd yn oed wedyn mae pryder yn parhau am effaith weledol y bwriad. Tra nodir nad oes pryderon ar sail priffyrdd na mwynderau lleol, nid yw prif egwyddorion polisi TWR 5 yn cael eu cwrdd, gan na fyddai'r unedau yn cael eu cuddio i mewn i'r dirwedd bresennol sydd o fewn yr AHNE a ble mai'r prif nod yw gwarchod, cynnal a gwella ei gymeriad. Yn bresennol hefyd nid oes gwybodaeth ddigonol am y dull gwaredu carthffosiaeth wedi ei dderbyn yn rhan o'r cais i ddangos na fydd y bwriad yn achosi llygredd yn bennaf i'r amgylchedd dyfrol ac felly fod y bwriad yn groes i faenprawf 7 o Bolisi PCYFF 2.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Gwrthod – rhesymau

1. Byddai'r safle carafanau arfaethedig, oherwydd ei leoliad, gosodiad a gwedd yn y dirwedd, yn sefyll fel nodwedd amlwg ac ymwthiol o fewn cefn gwlad agored gan gael effaith niweidiol ar y dirwedd a mwynderau gweledol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae'r bwriad felly yn groes i bolisi AMG 1 a TWR 5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (Gorffennaf 2017) (fel y'i diwygiwyd gan adroddiad yr arolygydd 30 Mehefin, 2017) a Chanllaw Cynllunio Atodol: Llety Gwyliau, Cyngor Gwynedd.

2. Ni chyflwynwyd gwybodaeth ddigonol am y dull gwaredu carthion o'r safle i sicrhau na fydd y bwriad yn achosi llygredd i'r amgylchedd dyfrol ac ystyrir fod y bwriad felly yn groes i faenprawf 7 o Bolisi PCYFF 2 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (Gorffennaf 2017) (fel y'i diwygiwyd gan adroddiad yr arolygydd 30 Mehefin, 2017)